## YSGRIFENNU YMSON

- Mae angen gwreiddioldeb ac ymateb personol gan ddefnyddio strwythur pendant i'r gwaith er mwyn dal a chynnal diddordeb.
- Mae angen saernïo'r gwaith yn ofalus i sicrhau undod.
- Dylid dewis a dethol yr elfennau arwyddocaol yn y digwyddiad a'r profiad gan osgoi catalog llac o ddigwyddiadau.
- Mae'n bwysig amrywio patrymau brawddegol yr iaith.
- Yn naturiol gellir defnyddio iaith lafar, ond bydd y cynnwys yn dylanwadu ar ansawdd yr iaith.

*TAG CYMRAEG (IAITH GYNTAF) DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL*

## Ffurf/*genre*

Dweud hanes drwy lygad cymeriad boed hwnnw yn chi eich hun neu yn gymeriad arall yw ymson. Yr hyn sy'n bwysig wrth ysgrifennu ymson yw bod yr awdur yn mynd o dan groen y person y mae yn ysgrifennu amdano/amdani. Meddyliwch am yr ymson fel llais mewnol rhywun ar bapur ac o feddwl felly am y ffurf mae modd dadlau bod yr ymson yn ffurf mwy personol na'r dyddiadur hyd yn oed. Dadlennir cudd feddyliau'r galon mewn ymson a gwir deimladau rhywun. Meddyliwch am yr ymson fel mynedfa i feddyliau person arall a bod y meddyliau hynny yn cyfathrebu'n uniongyrchol â ni. Cofiwch gall yr ymson fod yn wir neu'n ffug.

Yr elfen bersonol sy'n ganolog yn yr ymson, y *monolgue intérieur*. Yn ôl un beirniad mae 'angen meddwl am y llais yn siarad ag ef ei hun i esbonio'i amgylchfyd, ei emosiynau, ei deimladau, i ddisgrifio'r hyn a wêl ac a deimla.' 'Buan wedyn' meddai yr un beirniad 'y sylweddolir nad oes gan ysgrifennu naratifol ddim llawer o le mewn ymson.'

Un o'r pethau mwyaf nodweddiadol am yr ymson yw tôn llais a chywair yr iaith. Ystyriwch sut mae eich llais mewnol yn siarad yn eich pen chi ac mi welwch fod llais yr ymson yn debyg. Caiff ei ysgrifennu yn llais y person cyntaf unigol ac mae yn yr amser presennol. O ganlyniad addas yw'r defnydd o iaith lafar ac ebychiadau – dyma un ffordd o gyfleu naturioldeb sy'n angenrheidiol mewn ymson.

Cofiwch hefyd fod ymson da yn amlygu gwir deimladau a deisyfiadau'r ymsonwr gan adlewyrchu cyflwr cymeriad ar foment benodol.

# Ymson dwy genhedlaeth – 'Y Sedd yn y Gornel' gan Ifan Jenkins

**(Cyfansoddiadau Eisteddfod yr Urdd, 2014)**

1. **Gwreiddioldeb ac ymateb personol**

Ymateb i gystadleuaeth oedd yn gofyn am 'Ymson dwy genhedlaeth yn ymateb i'r un digwyddiad' a wnaeth Ifan Jenkins. Dewisodd ysgrifennu am dad a mab. Mae'r tad yn 'eistedd yn ei gornel' mewn cartref henoed a'r mab yn treulio ei fywyd 'yn ymweld â'r llefydd mwyaf ysblennydd yn y byd: traethau yn Sbaen, y casino yn Las Vegas a gwestai moethus ym mhob man.' Yn ei sylwadau ar waith Ifan Jenkins dywedodd y beirniad Angharad Price 'fod yma wreiddioldeb a gweledigaeth.'

O safbwynt ymateb personol mae'r meddyliau hyn mor breifat ac mae'n eithaf annhebygol y byddai'r cymeriad yn eu cyfaddef wrth neb arall. Mae'r tad yn dweud fel hyn, 'Fi yw'r un sy'n broblem iddyn nhw. Fi yw'r un sydd raid iddynt ei fwydo dair gwaith bob dydd. Fi yw'r un a'u magodd nhw.' Y 'nhw' yw ei deulu.

Efallai y buasech yn dadlau nad yw syniad Ifan Jenkins yn un gwreiddiol iawn ac mae'n bosib y buasech chi wedi meddwl am sefyllfa debyg. Yr hyn sy'n wreiddiol yw'r ddau safbwynt wahanol o fewn yr ymsonau a'r modd mae'r safbwyntiau yn datblygu. Dyma'r 'weledigaeth' y cyfeiriodd Angharad Price ati.

2. **Strwythur pendant**

Mae'r meddwl mor ddiddorol. Mae'n symud yn chwim, yn cael ei lygad dynnu yn sydyn, ac yn newid cyfeiriad yn annisgwyl. Byddwch driw felly i'r meddwl wrth ysgrifennu gan gadw mewn cof y dylai popeth rydych yn ei ysgrifennu ychwanegu ystyr at y gwaith. Hynny yw, os am newid cyfeiriad mewn ymson i sôn am rywbeth cwbl amherthnasol sicrhewch fod rheswm dros wneud hynny. Mae Ifan Jenkins yn gwneud hyn yn ymson y mab, ac wrth wneud hynny mae'n newid gêr yr ymson yn sylweddol: 'Teimlaf rywbeth yn ddwfn ym mêr fy esgyrn yn ceisio dweud rhywbeth wrthyf. Yn sydyn daw atgofion i'm cof' ac yna drwy'r atgofion caiff y mab ei ysgogi a'i brocio a dyna pryd y daw epiffani y sylweddoliad a'r newid i'w ran. Mae'r newid sydyn yn agwedd y mab yn gweithio'n dda yma oherwydd bod yr ymson cyn hynny wedi'i strwythuro fel bod teimladau'r mab yn adeiladu at bwynt o ddifaterwch llwyr at ei dad, sydd yn gwneud y sylweddoliad o werth teulu yn fwy effeithiol fyth wedyn.

3. **Saernïo i sicrhau undod**

Er bod yma ddau ymson mewn gwirionedd, gwelwn fod undod i'r gwaith i gyd. Mae ymsonau y tad a'r mab yn feddyliau ar y funud sy'n ymateb i'r un sefyllfa, felly dyna un ddolen gyswllt. Mae hefyd undod i'r gwaith yn y ffordd y maent yn cychwyn ac yn gorffen. Egyr yr ymson cyntaf: 'Gwelaf fy mab yn cerdded i ffwrdd. "Caru ti, Dad!" – geiriau nid gweithredoedd.' O'r dechrau felly teimlwn fod rhyw wactod ym mywyd y tad gan nad yw'r mab yn malio llawer amdano. Edefyn tenau sy'n dal y berthynas. Ond, erbyn diwedd ymson y mab mae llygedyn o obaith yn dilyn ei sylweddoliad epiffanaidd.

Gwêl bwysigrwydd eu perthynas, ac mae'r ymson yn cloi gyda'r geiriau: ' "Caru ti, Dad." Nawr, golyga'r geiriau hyn bopeth i mi.' Dyma adleisio agoriad yr ymson cyntaf ond bellach mae yma newid a chyferbynnu. Os yw'r ymson cyntaf yn agor ar nodyn negyddol mae'r ail ymson yn cloi ar nodyn cadarnhaol.

Dolen gyswllt arall rhwng yr ymsonau sy'n sicrhau undod yw'r cyfeiriad cynnil at y sêr gyda'r tad a'r mab yn cofleidio'r atgof ac yn dwyn i gof dynerwch y cariad teuluol. 'Profiad godidog, meddai'r tad 'Roedd hi'n wych!' meddai'r mab.

**4. Dewis a dethol elfennau arwyddocaol**

Y perygl yw dweud gormod yn hytrach nag awgrymu mewn ymson. Ceisiwch felly hau delweddau cynnil a syml. Peidiwch â gwastraffu geiriau ar bethau amherthnasol neu bethau sydd ddim yn mynd i ychwanegu at adnabyddiaeth y darllenydd o'r cymeriad neu'i gefndir. Mae'r mab yn sôn am ei blentyndod: 'Trigasom mewn tŷ yng nghanol unman.' Nid manylyn amherthnasol mohono, oherwydd mae'n ychwanegu gwybodaeth werthfawr am gefndir y cymeriad. Cofio am fanylion fel hyn sy'n gwneud i'r mab sylweddoli bod ei deulu: 'yn dlawd yn faterol ond yn gyfoethog iawn, iawn.' Felly cofiwch, ysgrifennwch i bwrpas fel bod pwrpas i'r ysgrifennu.

**5. Amrywio patrymau brawddegol**

Gwyddoch fod amrywio patrymau brawddegol yn mynd i ennyn a chynnal sylw'ch darllenydd. Ystyriwch amrywio hyd a thôn eich brawddegau. Gallwch ddefnyddio ebychiadau, fel: 'Roedd hi'n wych!' neu gwestiynau rhethregol megis: 'Pam ddylen nhw?' Mae defnyddio deialog, sef y geiriau ' "Caru ti, Dad!"' yng ngwaith Ifan Jenkins, yn effeithiol am ei fod yn ychwanegu haen arall i'r ymson, sef yr hyn sy'n digwydd y tu hwnt i feddwl y cymeriad, y synau allanol. Dyma gyfle da i gyferbynnu rhwng llais mewnol y cymeriad a'i lais allanol.

Sylwch ar rythm y brawddegau yn y trydydd paragraff yn ymson y tad ac ailadrodd y berfau 'Edrychaf, Gwelaf a Sylwaf...' Hen ŵr yn llonydd yn ei gadair sydd yn edrych, gweld a sylwi, hen ŵr llonydd ond yn meddu meddwl chwim a sylwgar. Dyna'r eironi a gyfleir mor ingol yma. A sylwch fod yr hen ŵr o gwmpas ei bethau. Dywed wirioneddau megis 'Disgwyliant i mi fyw ar atgofion y gorffennol. Rwy'n anghytuno. Mae angen rhywbeth llawer mwy pwerus i'm bwydo; mae angen maeth o'r presennol arnaf. Teimlaf fel petai fy mhresennol wedi cael ei ddwyn oddi wrthyf. Nawr defnyddiaf ddarnau o'm gorffennol er mwyn ceisio llanw'r bwlch.'

Pa ddarllenydd all anghofio sylw fel yna? Sylwadau y dylid eu cadw mewn cof wrth ymweld â chartref henoed. Mae yna leisiau nas clywir mewn cartref ac onid yr ymson yn hytrach na phortread yw'r ffurf gorau i gyflwyno'r lleisiau hynny?

O ran techneg, yr un glust fain i rythm a welir yn y frawddeg ingol hon: 'Nawr maent yn gloddesta hebof, yn dathlu hebof, yn byw hebof.'

**6. Cywair iaith**

Mae ymson bob amser yn cael ei ysgrifennu o safbwynt y person cyntaf unigol: 'Gwelaf fy mab yn cerdded i ffwrdd' ac 'Eisteddaf yma yn fy nghornel.' Fe welwn fod y mab yn mynd drwy broses o hunan adnabod yn ei ymson ef - ac o gofio hynny a yw'r cywair iaith yn briodol? Ystyriwch hefyd a yw'r cywair iaith yn taflu goleuni ar gefndir y tad a'r mab? Mae'r arddull yn yr ymsonau yn eithaf ffurfiol. Pam hynny tybed?

- Tybed a gawsoch chi eich sbarduno i ysgrifennu ymson ar ôl darllen gwaith Ifan Jenkins? Os felly, beth am ysgrifennu ymsonau cyferbyniol. Os ydych am ysgrifennu ymsonau mam a merch, dyweder, ymateb i ba sefyllfa neu ddigwyddiad fydden nhw? Efallai eu bod ar wahân, mewn dau le hollol wahanol neu efallai fod y ddwy dan yr un to, ac yn yr un ystafell. Wrth edrych ar y ferch beth a ddysgwn am y fam a beth a ddysgwn am y ferch drwy lais y fam?

  Beth am ysgrifennu am athro a disgybl/athro Cymraeg a dysgwr/warden a charcharor/bwli a dioddefwr/rheolwr tîm pêldroed a seren y tîm/ a'r naill fel y llall yn ymateb i'r un sefyllfa neu ddigwyddiad?

- Cofiwch, does dim rhaid ysgrifennu dau ymson. Efallai mai un person fydd gwrthrych eich ymson. Beth bynnag fo'ch dewis anelwch i fod yn wreiddiol a dyfeisgar gan sylwebu ar y natur ddynol yn finiog a ffres.